OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 837

# Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Galluedd yn ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007

**Ymchwil y caniateir ei gyflawni er bod cyfranogwr yn colli galluedd**

**3.** Er i P golli galluedd, caniateir i ymchwil at ddibenion y prosiect gael ei gyflawni gan ddefnyddio gwybodaeth neu ddeunydd sy'n ymwneud â P —

(a) os yw'r prosiect yn bodloni'r gofynion a osodir yn Atodlen 1;

(b) os cafwyd yr holl wybodaeth neu'r deunydd sy'n ymwneud â P a ddefnyddir yn yr ymchwil cyn i P golli galluedd;

(c) os yw'r wybodaeth honno neu'r deunydd hwnnw naill ai—

(i) yn ddata o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998, neu

(ii) yn ddeunydd sy'n gelloedd dynol neu'n DNA dynol a/neu yn eu cynnwys; ac

(ch) os yw'r person sy'n cynnal y prosiect ("R") yn cymryd y camau hynny sy'n ymwneud â P a osodir yn Atodlen 2.